GWERTHFAWROGI RHYFEDDODAU CREADIGAETH DUW

Nodyn i'r siaradwr:

Ymresymwch â'r gynulleidfa ynglŷn â sut mae rhyfeddodau'r greadigaeth yn datgelu Creawdwr deallus a'i briodoleddau. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi dinodedd dyn a sut y gall ddod i wybod am bwrpas cariadus Duw

RHYFEDDODAU'R GREADIGAETH—TESTUN ADDAS AR GYFER ANERCHIAD BEIBLAIDD (4 mun.)

Mae'r pwnc dadleuol esblygu-creu yn dal i fod yn destun trafod holl-bwysig

Mae llawer yn gwrthod credu yn Nuw ac yn gweithredu'n gyfatebol (Salmau 10:4; 14:1)

Gwerslyfrau ysgol a chylchgronau poblogaidd yn cyflwyno esblygiad fel ffaith

Fe wnaeth ysgrifenwyr y Beibl a chymeriadau'r Beibl sylwadau ar bwnc y creu, felly mae'r testun hwn yn un addas ar gyfer anerchiad Beiblaidd heddiw

Mae rhyfeddodau'r greadigaeth yn adlewyrchu priodoleddau Duw (Salmau 19:1)

Po fwyaf y gwyddom am y byd ffisegol, y mwyaf yw'r argraff a wneir arnom

RHYFEDDODAU'R GREADIGAETH YN ADLEWYRCHU CREAWDWR DEALLUS (15 mun.)

Y bydysawd yn gyforiog o alaethau o faintioli ac ynni aruthr (*ce* 116-20)

Er nad ydym yn seryddwyr efallai, gwyddom am y galaethau

Mae angen Cyfundrefnwr ar gyfundrefn y bydysawd; angen Deddfwr i sicrhau deddfau (*ce* 122-4; *sh* 336-9; Eseia 40:26; 1Cor 15:41)

Yng nghysawd yr haul, mae'r haul yn rhyfeddod creëdig sy'n rhoi budd a lles i bawb ohonom

Er ei fod 93 miliwn milltir i ffwrdd, mae'n darparu golau, gwres, ynni

'Dyw'r haul yn ddim ond cannwyll o'i gymharu â sêr eraill, eto mae ei olau'n ddigonol i ni

Mae pobl gwir ddoeth yn ceisio 'nabod Creawdwr a Chyfundrefnwr y bydysawd (Heb 3:4; Gen 1:1; Eseia 42:5; *ce* 125-7)

Mae'r ddaear a greodd Duw nid yn unig yn "em hardd, prin yn y gofod" ond hi yw'r unig blaned lle canfyddir bywyd, a hynny'n helaeth (Salmau 104:24-27; *ce* 129-30)

Mae'r ddaear yn agwedd ganolog y bydysawd i ni, ac yn amlwg fe'i cynlluniwyd ar gyfer bywyd gan Greawdwr (*sh* 337)

Mae hi'r union bellter oddi wrth yr haul, mae iddi dymhorau diddorol a llesol, dŵr bywiol ac atmosffer, pridd all gynhyrchu bwyd blasus (Esec 34:26, 27; *ce* 131-41)

"Po fwyaf yr archwiliwn eangderau du'r gofod, y mwyaf y cydnabyddwn fod ein daear ni yn blaned eithriadol—Gardd Eden cysawd yr haul. 'Does dim gwrthrych planedol arall o fewn can biliwn o filltiroedd (160 biliwn km) ac iddo gynhysgaeth mor doreithiog o ran amrywiaeth a harddwch . . . Rai degawdau'n ôl doniodd dychymyg dyn y blaned Mawrth â bodau deallus . . . 'Nawr gwyddys y gwirionedd am Fawrth. Os oes bywyd yno, mae'n ficrosgopig . . . yn sydyn 'rydym yn ymwybodol fod y ddaear yn lle arbennig iawn. Mewn rhai agweddau gall ei bod yn unigryw o fewn y bydysawd"—*The Blue Planet,* gan Louise B. Young, (1983) tud. 3-4

'Ydym ni'n edrych ar agweddau o'r fath fel tystiolaeth i fodolaeth Creawdwr? (*ce* 151)

A gawn ni'n cyffroi i ystyried beth yw priodoleddau'r Creawdwr a beth yw ei ewyllys ar ein cyfer ni?

MAE'R GREADIGAETH O'N HAMGYLCH YN ADLEWYRCHU PRIODOLEDDAU'R CREAWDWR (15 mun.)

Mae angen inni ddysgu rhagor oddi wrth y greadigaeth na ffeithiau a all ein syfrdanu ni; fe ddylem ddysgu'r hyn a ddatguddia'r greadigaeth inni am y Creawdwr

Adlewyrchir ei brif briodolaethau yn ei weithiau

Fe amlyga'r greadigaeth ei *nerth—Jeremeia 10:12*

Mae hyn yn amlwg yn nerth ymasiad y sêr a'n haul ni, sy'n tywallt gwres a goleuni oherwydd ynni deinamig y Creawdwr (Eseia 40:26)

Yma ar y ddaear mae nerth anferthol a amlygir mewn corwyntoedd, daeargrynfâu, gwreiddiau planhigion a all hollti creigiau

Gall hyd yn oed greaduriaid amlygu nerth, er enghraifft eliffantod a morfilod

Mae'r greadigaeth yn amlygu *cyfiawnder—Deuteronomium 32:4*

Mae'r rhan fwyaf o fodau dynol yn adlewyrchu synnwyr cyfiawnder; mae hynny hyd yn oed yn wir am lawer o blant

Gall hyd yn oed ffurfiau bywyd nad oes ganddynt wir synnwyr cyfiawnder gyfnewid gwasanaethau defnyddiol

Enghraifft: caiff gwenynen neithdar o flodyn ond yn gyfnewid am hynny mae'n ei beillio (*ce* 145-6)

O'n cwmpas gwelwn amlygiadau o *ddoethineb* Duw—*Diarhebion 2:6*

Adlewyrchir hyn yn ddramatig yn y creaduriaid a wnaed yn "eithriadol ddoeth" (Diar 30:24; *ce* 160-7; dangoswch hyn drwy sôn am ffyrdd greddfol mudo a gwneud nythod)

Doethineb yn amlwg, hefyd, yn ein cyrff, megis yr ymennydd dynol (*ce* 168-78; dangoswch yr hyn y gall ymennydd ei gyflawni a chymharwch ef â chyfrifiaduron)

Mae rheswm gennym dros foli'n Creawdwr doeth

Y tu hwnt i allu, cyfiawnder, a doethineb, mae'r greadigaeth yn tystiolaethu i *gariad* Duw—*1 Ioan 4:8*

Gallwn ddirnad ei gariad yn y greddfau a roddwyd gan Dduw i anifeiliaid ac adar wrth fagu ac amddiffyn eu rhai bach

Mae'r aderyn yn gori am wythnosau, a phan fo'r rhai ifanc yn deor, mae'r gwryw a'r fenyw yn gweithio'n ddiflino i'w bwydo

GALL Y GREADIGAETH DDYSGU GWERSI PWYSIG INNI (6 mun.)

Cyfeiriodd Job at y greadigaeth fel ffynhonnell gwybodaeth (Job 12:7-10)

Defnyddiodd Jehofah ei greadigaethau i ddysgu i Job ymwybyddiaeth o'i gyfyngiadau a'r angen am ostyngeiddrwydd (Job 38:1–42:6)

Gwelodd Dafydd drwy gyfrwng y greadigaeth ddinodedd dyn ac fel y'i cynlluniwyd mewn ffordd ryfeddol ac ofnadwy (Salmau 8:3, 4; 139:13-16)

Mae'r Beibl yn darparu gwersi eraill y medrwn eu dysgu o'r greadigaeth

Wrth ystyried morgrug gwelodd Solomon wers mewn diwydrwydd (Diar 6:6-11)

O ystyried gofal Jehofah dros adar a blodau gallwn ddysgu disodli pryderon bydol gan ffydd yn Nuw fel darparwr (Mth 6:26-30)

Mae'r corff dynol yn darparu gwers yn yr undod sy'n bodoli ymhlith aelodau cynulleidfa Crist (1Cor 12:12-18)

Y wers fwyaf mae'r greadigaeth yn ein dysgu: mae Duw yn holl-rymus, holl-ddoeth, yn gyfiawn bob amser, yn gariadus bob amser, yr un a roddodd fywyd i ni (Salmau 36:9)

Mae'r rhai sy'n gwrthod gweld hyn wedi'i adlewyrchu yn y greadigaeth a'i addoli'n ddiolchgar yn ddiesgus yn ei olwg (Rhuf 1:20, 21, 28)

'YDYCH CHI'N DANGOS GWERTHFAWROGIAD O GREADIGAETH JEHOFAH? (5 mun.)

Os ydych chi'n gwerthfawrogi creadigaeth Duw, sut dangoswch chi hynny? I bwy y mynegwch chi e?

Dylai fod i Greawdwr y bydysawd (Gen 1:1; Dat 4:11; 10:6)

Os yw esblygwyr yn teimlo unrhyw werthfawrogiad o'r rhyfeddodau hyn, 'wnân' nhw ddiolch i "Hap" neu i "dduw Ffawd"? (Eseia 65:11)

Bwriad Jehofah yn creu'r ddaear a'i rhyfeddodau oedd er mwyn i ddyn fyw arni, gofalu amdani, ei mwynhau hi, a'i glodfori'n werthfawrogol amdani (Gen 1:28; 2:15; Eseia 45:18; Salmau 100)

Os yw'r nefoedd, heb iaith, heb eiriau, heb lais, yn Ei glodfori, gymaint yn fwy y dylai'r rheiny a chanddynt dafodau a galluoedd llefaru wneud hynny!

Darparodd Duw ddoethineb greddfol ar gyfer y creaduriaid is i'w harwain, ond i bobl fe roddodd y Beibl yn brif arweiniad

A chennym ninnau ewyllys rydd, gallwn ateb gofynion Duw ar gyfer bywyd tragwyddol neu fe allwn ni ganiatau i ni'n hunain gael ein harwain gan dwyll Satan, ein camarwain i ddilyn cwrs sydd ag angau diddiwedd yn ganlyniad iddo

Felly am ba hyd y cewch y fraint o fyw i fwynhau rhyfeddodau creadigaeth Jehofah? Chi piau'r dewis (Deut 30:19, 20; Jos 24:15; In 17:3)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)